ATODLEN 4

Rheoli a dileu TSE mewn defaid a geifr

**Cadarnhad o glefyd y crafu annodweddiadol mewn defaid neu eifr**

**9.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os y TSE a gadarnheir mewn dafad neu afr a amheuwyd, neu gorff dafad neu afr a fu'n destun monitro o dan Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned, yw clefyd y crafu annodweddiadol, ac os yw BSE wedi ei nacáu yn unol â'r weithdrefn a nodir ym Mhennod C, pwynt 3(2)(c) o Atodiad X i'r Rheoliad hwnnw.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu peidio â chymhwyso paragraff 6 mewn perthynas â defaid, neu baragraff 7 mewn perthynas â geifr.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymhwyso naill ai paragraff 6 neu 7, rhaid i Weinidogion Cymru, yn lle cydymffurfio â gofynion y paragraff hwnnw,—

(a) cynnal yr ymchwiliad a bennir yn Erthygl 13(1)(b) o Reoliad TSE y Gymuned ac ym mhwynt 1(b) o Atodiad VII i'r Rheoliad hwnnw; a

(b) penderfynu pa un o'r opsiynau a nodir ym mhwyntiau 5(a) a 5(b) o Atodiad VII i'r Rheoliad hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei arfer.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru wedyn gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y daliad, sy'n rhoi gwybod iddo pa opsiwn y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei arfer.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru yn dewis yr opsiwn a nodir ym mhwynt 5(a) of Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned, rhaid i'r hysbysiad nodi—

(a) manylion adnabod yr anifeiliaid (os oes rhai) sydd i'w lladd neu eu dinistrio;

(b) manylion adnabod unrhyw ofa neu embryonau (os oes rhai) sydd i'w dinistrio; ac

(c) y terfyn amser ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad.

(6) Os yw Gweinidogion Cymru yn dewis yr opsiwn a nodir ym mhwynt 5(b) of Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned, yna, am y ddwy flynedd fridio ar ôl canfod yr achos olaf o TSE, rhaid i'r meddiannydd—

(a) nodi pob dafad a gafr sydd ar y daliad; a

(b) peri i'r daliad fod destun y monitro dwysach ar gyfer TSE a nodir ym mhwynt 5(b)(ii) o'r Atodiad hwnnw,

ac y mae peidio â chydymffurfio â'r is-baragraff hwn yn dramgwydd.

(7) Ni chaiff neb anfon unrhyw anifeiliaid byw o deulu'r ddafad neu'r afr a nodwyd o dan is-baragraff (6)(a), nac embryonau neu ofa o anifeiliaid o'r fath, i Aelod-wladwriaeth arall nac i drydedd gwlad ac y mae peidio â chydymffurfio â'r is-baragraff hwn yn dramgwydd.

(8) Mae'r drefn apelio yn rheoliad 10 yn gymwys.